**YR ACHOS DROS GYLLID GWELL I LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU: TYSTIOLAETH GAN UNDEBAU LLAFUR Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL I BWYLLGOR DEISEBAU'R SENEDD**

**Swyddogaeth y Llyfrgell Genedlaethol**

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) yw un o brif symbolau'r genedl Gymreig. Fel un o chwe llyfrgell adnau cyfreithiol ym Mhrydain ac Iwerddon, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn lletyo treftadaeth ddogfennol y genedl gydag ystod eang o ddeunyddiau ynglŷn â hanes a diwylliant Cymru, gan gynnwys dros 6 miliwn o lyfrau a phapurau newydd, 1,900m$^3$ o archifau, 40,000 o lawysgrifau, 1.5 miliwn o fapiau, 950,000 o luniau, 60,000 o weithiau celf, 7 miliwn troedfedd o ffilm a 150,000 o recordiadau sain. Mae mynediad yn rhad ac am ddim i'r deunyddiau hyn gyda thocyn darllenwyr, sydd yn rhad ac am ddim i unrhyw un dros 16 oed.

Fel trysorfa treftadaeth ddogfennol y genedl, mae'r Llyfrgell yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu mynediad at ddeunyddiau sydd yn hanfodol wrth ddeall hanes a diwylliant Cymru. Trwy ddarparu mynediad at y deunyddiau hyn yn rhad ac am ddim mae'r Llyfrgell yn chwarae rôl gymdeithasol ac addysgol bwysig gan ddarparu mynediad at draddodiadau diwylliannol, gwleidyddol ac athronyddol Cymru a'r byd i rai o gymunedau tlotaf Cymru.

**Cefndir i Argyfwng Ariannol y Llyfrgell Genedlaethol**

Mae'r argyfwng ariannol cyfredol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ganlyniad uniongyrchol i dros ddegawd o danariannu a llymder. Fel nodwyd yn Adolygiad Teilwredig o'r Llyfrgell y llynedd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae cyllideb y Llyfrgell wedi cwympo gan 40% mewn termau real ers 2008. Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei waethygu o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19, gyda'r Llyfrgell yn derbyn dim ond £50K mewn arian argyfwng ar ôl ystyried y toriad o £200K o ddechrau'r pandemig. Mae'r nifer o staff a gyflogir gan y Llyfrgell hefyd wedi lleihau o ganlyniad i'r cwymp yn y gyllideb, gan leihau gan 24% rhwng 2008 a 2019, o 290 i 221 (cyfwerth a swyddi llawn amser).

**Canlyniadau peidio â rhoi cyllid ychwanegol i'r Llyfrgell Genedlaethol**

Effaith cyntaf o beidio â darparu cyllid digonol yw y bydd tua 30 o bobl yn colli eu swyddi, sef o bosibl 30 teulu yn colli un, neu yr un, sy'n ennill cyflog. Wrth ystyried y sefyllfa ariannnol bresennol mae'n anhebyg y bydd y rhain yn gallu canfod swydd arall ac mae'n debyg bydd nifer yn cael ei thaflu i dlodi.

Mae tanariannu cyson y Llyfrgell wedi lleihau gallu'r sefydliad i gyflawni ei gwaith. Ar yr un pryd, mae mwy o waith sydd angen ei gwneud. O ganlyniad, mae'r Llyfrgell wedi gorfod estyn ei ymdrechion gyda llai o staff i gyflawni ei amcanion. Erbyn hyn, byddai toriadau pellach yn achosi i feysydd pwysig o waith y Llyfrgell cael ei hepgor yn gyfan gwbl.

Bydd y Llyfrgell yn colli ei thîmoedd ymholiadau a gwasanaeth y desgiau; caiff y gwaith ei basio i staff eraill mewn adrannau curadurol. Canlyniad hyn fydd colled fawr mewn arbenigedd a llwyth gwaith fwy i'r staff sydd ar ôl sydd, mewn sawl achos, heb yr hyfforddiant neu'r arbenigedd i gyflawni'r tasgau newydd hyn.

Yn ogystal, mae'r 2 wasanaeth ystafell ddarllen sydd yno ar hyn o bryd (sydd eisoes wedi lleihau o 4 ystafell ddarllen) i gael eu cyfuno i ddim ond un ystafell ddarllen. Gall hyn rhwystro darllenwyr rhag mynediad at rai mathau o ddeunydd, yn arbennig eitemau fwy. Mae cynigion hefyd i gyfyngu ar fynediad trwy osod system bwcio, fyddai'n lleihau ar gyfleoedd pobl gyffredin i weld treftadaeth

ein cenedl. Byddai hyn yn gam mawr yn ôl ar ôl i'r Llyfrgell treulio'r 30 mlynedd diwethaf yn trio darparu mynediad ehangach i bobl Cymru.

Effaith pellach yw na fydd gan y staff curadurol digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau cyfredol o gasglu a chatalogio. Caiff 40% llai o ddeunyddiau analog eu casglu a bydd llawer o waith catalogio yn stopio am byth. O ganlyniad, bydd eitemau a ddylai cael eu cadw ar gyfer y genedl yn cael eu colli am byth ac na fydd gan y cyhoedd mynediad at hyd yn oed yr eitemau a dderbynir am na fyddent yn cael eu catalogio. Caiff y Llyfrgell ei droi'n warws, gyda'r casgliadau'n cael eu hanwybyddu a neb i ofalu amdanynt.

Mae llawer wedi cael ei dweud am drawsffurfio digidol, gan awgrymu y byddai hyn yn gwneud yn iawn am y diffyg mynediad mewn meysydd arall. Fodd bynnag, nad yw hyn yn wir am fod 95% o gasgliadau'r Llyfrgell heb eu digido ac mae hyd yn oed adnau cyfreithiol digidol gwreiddiol ond yn gallu cael eu gweld yn y Llyfrgell o dan gyfreithiau cyfredol. Er mwyn cyflymu digido casgliadau analog byddai angen mwy o staff ar y Llyfrgell, nid llai. Gyda staff curadurol yn gorfod gwneud gwaith staff y desgiau ac ymholiadau, ni fydd amser iddynt ddethol eitemau ar gyfer digido na pharatoi'r metadata sydd ei angen er mwyn caniatáu mynediad at eitemau sydd wedi'u digido.

Mae'r toriadau y mae'r Llyfrgell yn ei wynebu yn mor llym fel mae dichonoldeb y Llyfrgell yn y fantol. Bydd gormod o waith gan y staff sydd ar ôl, bydd recriwtio'n parhau i fod yn anodd o ganlyniad i gyflogau anghystadleuol, bydd gwaith estyn allan yn lleihau a bydd mynediad at gasgliadau'n anos o lawer. Mae'n debyg iawn y bydd y strwythur newydd yn achosi cwymp llwyr yng ngallu'r Llyfrgell i gyflawni ei swyddogaethau craidd yn y dyfodol agos.

**<u>Canlyniadau i Ardal Ceredigion</u>**

Y Llyfrgell Genedlaethol yw un o brin gyrff Llywodraeth Cymru a leolir tu allan i dde-ddwyrain Cymru ac y mae'n gyflogwr pwysig yng Nghymru wledig. Mae hefyd yn un o'r gweithleoedd mwyaf yng Nghymru lle mae Cymraeg yw prif iaith y gweithle. Serch hynny, gyda thoriadau mawr i niferoedd y staff, a heb lawer o swyddi amgen ar gael yn y sector diwylliant a threftadaeth, mae'n bosibl byddwn yn gweld diboblogi gwledig pellach, gyda cyn-staff Cymraeg eu hiaith, sydd â theuluoedd, yn symud i ffwrdd, efallai'n symud o Gymru yn gyfan-gwbl. Bydd hyn yn effeithio'n wael ar darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal ag effeithio'n sylweddol ar economi lleol sydd eisoes yn fregus.

**<u>Effaith Diswyddiadau ar Staff</u>**

Heb gynnydd yng nghyllideb refeniw'r Llyfrgell Genedlaethol, mae staff y Llyfrgell yn wynebu colli 30 swydd o dan y cynlluniau ailstrwythuro a argymhellwyd gan reolwyr y Llyfrgell, neu 13% o'r lefel staffio presennol (cyfwerth a swyddi amser llawn). Ar ben y 69 swydd a gollwyd rhwng 2008 a 2019, canlyniad colli'r 30 swydd hyn yw y bydd y Llyfrgell wedi colli bron cant o swyddi mewn 13 mlynedd. Mae'r rhai sydd nawr yn wynebu bygythiad i'w swyddi yn wynebu colli eu swyddi ar anterth y pandemig Covid-19. Mae effaith economaidd y pandemig, yn ogystal â natur y cyfyngiadau Covid-19, yn meddwl bydd y staff hyn yn wynebu heriau sylweddol wrth ganfod gwaith amgen, yn arbennig o ran canfod swyddi ar lefel tebyg yng Ngheredigion. Mae cael eich diswyddo yn boenus tu hwnt hyd yn oed o dan amgylchiadau arferol; mae wynebu anffawd o'r fath yn ystod pandemig byd-eang yn afresymol y tu hwnt.

Mae'n glir o gynlluniau ailstrwythuro arfaethedig y Llyfrgell y bydd colli 30 swydd hefyd yn cynyddu llwyth gwaith i'r staff sydd ar ôl am y bydd dyletswyddau fel gweinyddu'r desgiau yn yr ystafell ddarllen, ateb ymholiadau, marchnata ac addysg eisoes wedi'u hymgorffori yn y llwythau gwaith prysur. Bydd morâl ymhlith y staff, sydd eisoes yn is nag erioed, yn dioddef ergyd wrth i'r

staff sy'n weddill weld cydweithwyr annwyl, sawl un ohonynt sydd wedi gwasanaethu'r Llyfrgell ers blynyddoedd maith, yn cael eu diswyddo.

## Cyllid Gwell i Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth groesffordd. Pe weithredir y toriadau arfaethedig i'r Llyfrgell, rydym yn wynebu difrod gwirioneddol i un o sefydliadau cenedlaethol craidd Cymru. Caiff swyddi pwysig eu colli ynghyd â llawer iawn o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd. Cyfyngir ar fynediad at gasgliadau ffisegol y Llyfrgell; bydd casglu a chatalogio deunyddiau'n cynyddol anodd i'r staff sydd ar ôl; bydd dichonol y Llyfrgell ei hun yn y fantol. Fel y nodir uwchben, cyllid y Llyfrgell sydd wrth wraidd y mater. Gyda model cyllidol tecach, uwch a chynaliadwy gall y Llyfrgell, yn hytrach na wynebu argyfwng difrifol, bod unwaith eto yn sefydliad cenedlaethol hyfyw mae cyhoedd Cymru yn eu haeddu.

Mae tynged y Llyfrgell Genedlaethol yn fater o bwys cenedlaethol, mae'r nifer o lofnodion a gasglwyd mewn ychydig llai na phythefnos yn profi ei phwysigrwydd i bobl Cymru. Gyda'i ddyfodol yn y fantol, mae'n hanfodol y dylai'r Senedd cynnal dadl eang ar gyllid a dyfodol Llyfrgell Genedlaethol Cymru cyn i gyllideb Cymru ar gyfer 2021 – 22 cael ei phasio.